

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Rhagfyr 2017

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu barn y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ('y Pwyllgor') ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 mewn cysylltiad â'r meysydd polisi sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae'n ystyried lefelau cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol, a ddarperir i awdurdodau lleol o fewn y Grant Cynnal Refeniw. Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl y Cynulliad ar y gyllideb ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 5 Rhagfyr 2017.
2. Cyllideb ddrafft 2018-19 yw'r cyntaf i adlewyrchu'r pwerau trethi a benthyca newydd sy'n cael eu datganoli i Gymru. Dyma hefyd y gyllideb ddrafft gyntaf y byddwn yn craffu arni yn unol â'r broses gyllideb newydd y cytunwyd arni rhwng Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru.

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

3. Ar 3 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynigion amlinellol ar gyfer cyllideb ddrafft 2018-19, gan bennu'r dyraniadau ar gyfer prif grwpiau gwariant y gyllideb. Cafodd y gyllideb ddrafft fanwl, gan gynnwys meysydd gwariant unigol o fewn pob prif grŵp gwariant, ei chyhoeddi ar 24 Hydref 2017. Mae'n cynnwys dyraniadau refeniw dwy flynedd a dyraniadau cyfalaf tair blynedd.
4. Pan gafodd y gyllideb ddrafft ei chyhoeddi, prif grŵp gwariant Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon oedd yr unig un oedd yn adlewyrchu cylch gwaith y Pwyllgor yn benodol. Ar ôl ad-drefnu'r Cabinet a newid y portffolios Gweinidogol ar 3 Tachwedd 2017, symudwyd y cyfrifoldebau dros chwaraeon o Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i rôl newydd y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Rhagwelir felly y bydd yr arian cysylltiedig yn cael ei



drosglwyddo i brif grŵp gwariant yr Economi a Seilwaith. Ar 21 Tachwedd 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y bydd y prif grwpiau gwariant diwygiedig yn cael eu cyhoeddi cyn y ddadl ar y gyllideb ddrafft ar 5 Rhagfyr 2017.

## Dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb

5. Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd y Pwyllgor ei 'amcanion strategol ar gyfer y Pumed Cynulliad'. Mae'n nodi ei fwriad i ystyried yr holl waith yng nghyd-destun cyfres o amcanion y cytunwyd arnynt. Yr hyn sy'n berthnasol yn benodol i'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft hon yw ein hamcanion i ystyried y canlynol: y graddau y mae dull ataliol yn cael ei ddilyn o ran iechyd a lles; tystiolaeth o ymrwymadau gwariant effeithiol ac effeithlon; ac ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.
6. Ym mis Mehefin 2017, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu ariannol yn ystod y flwyddyn gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, i edrych ar y sefyllfa bryd hynny.
7. Cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ac wrth baratoi ar gyfer y gwaith craffu, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan bob bwrdd iechyd a chynrychiolydd o Gonffederasiwn GIG Cymru yn ystod dwy sesiwn ar 27 Medi a 11 Hydref 2017. Roedd hwn yn ddull newydd i'r Pwyllgor o ran ei waith craffu ar y gyllideb ddrafft. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn gofyn am dystiolaeth cyn y gyllideb gan ymddiriedolaethau'r GIG yn y dyfodol. O ran gofal cymdeithasol, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS). Cynhaliwyd y ddwy sesiwn hynny yn dilyn cyhoeddi'r cynigion amlinellol ynghylch y gyllideb ddrafft.
8. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i'r byrddau iechyd a chynrychiolwyr llywodraeth leol am eu papurau ysgrifenedig. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn a'n sylwadau. Nid ydym wedi darparu crynodeb manwl o'u tystiolaeth. Gellir gweld y papurau ar dudalen we<sup>1</sup> y Pwyllgor.
9. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y sesiynau tystiolaeth hyn cyn y gyllideb yn sail ar gyfer sesiwn graffu'r Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant ar 15 Tachwedd 2017.
10. Oherwydd y newidiadau i'r portffolios gweinidogol (y cyfeirir ato ym mharagraff 4 yr adroddiad hwn) a ddigwyddodd ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, ysgrifennodd y Pwyllgor at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth mewn

---

<sup>1</sup> Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, 27 Medi a 11 Hydref 2017

cysylltiad â chyllid ar gyfer chwaraeon. Gellir hefyd gweld yr ymatebion a ddarparwyd ar ein [gwefan](#).

## Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

### Trosolwg

---

11. Mae Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 wedi cynyddu £270 miliwn i £15.371 biliwn.
12. Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yw'r prif grŵp gwariant mwyaf o fewn cyllideb drafft Llywodraeth Cymru yn 2018-19. Y dyraniad o fewn y gyllideb yw £7,647 miliwn, sef cynnydd o 0.5% mewn termau real o gyllideb atodol 2017-18. Mae'n cynnwys:
  - Adnodd o £7,231 miliwn: cynnydd termau real o 0.8%;
  - cyfalaf o £295 miliwn: cynnydd term real o 15.2%; a
  - Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £121 miliwn.
13. Ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol, caiff dros 90% o'r cyllid hwn ei ddyrannu i GIG Cymru tra bod 0.5% yn cael ei ddyrannu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er, dylid nodi bod cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn dod yn bennaf drwy'r Grant Cynnal Refeniw.
14. Yn ei bapur tystiolaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym mai'r newid mwyaf sylweddol i'r prif grŵp gwariant Iechyd, Lles a Chwaraeon ar gyfer 2018-19 yw'r buddsoddiad ychwanegol o £450 miliwn pellach i GIG Cymru dros y ddwy flynedd nesaf (£230 miliwn yn 2018-19 a £220 miliwn yn 2019-20).

## Iechyd

### Newid trawsnewidiol

---

15. Yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft yn y flwyddyn flaenorol (2017-18), mynegodd y Pwyllgor bryder am y cynnydd araf mewn cysylltiad â thrawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bryd hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen cyflymu'r newidiadau. Yn yr un modd, yn ei dystiolaeth i'r ymchwiliad ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn (Mehefin 2017), dywedodd:

“I think the honest perspective is that we’ve seen real change in service transformation across the health sector but we’ll need to see a lot more, and part of my frustration is the pace of that change—I don’t think it’s where it needs to be. And I’m really looking for a significant step forward in the pace of that change.”

**16.** Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft fod angen newid radical os yw GIG Cymru am gyrraedd lefel y galw sy'n cael ei roi arno tra'n byw o fewn ei fodd. Mae hefyd yn nodi bod angen rhoi cyllid i drawsnewid gwasanaethau a chyllid pontio i sefydliadau'r GIG er mwyn buddsoddi mewn modelau a thechnolegau gofal newydd.

**17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi barn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (BIP ABM):

“Current funding mechanisms support to a large degree transformational change within Health Board organisational boundaries – given the constraints set out above of the requirement to deliver financial balance on an annual basis. The shortage of NHS Wales Capital funding in the foreseeable future will, however, be a constraint within this, and further advice and support on securing alternative sources of funding would be welcomed.”

**18.** Dywedodd hefyd: ‘relatively small amounts of monies which are made available for specific services (...) can make it more difficult to support local transformational change. Dywed ‘this has also been some of the experience with some of the primary care investment to cluster networks, which has delivered on very local priorities but has consequently not been targeted at opportunities to make system wide changes in pathways and models of care’.

**19.** Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor yn ystod gwaith craffu yn ystod y flwyddyn (Mehefin 2017), eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Sefydliad Iechyd wedi dweud bod angen “about £200 million extra on a regular, annual basis to keep the wheels turning in the health service. They didn’t say that was £200 million for significant service transformation or improvement. So, that’s money to help keep the services going’.

**20.** Ategodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford AC, hyn ar 3 Hydref 2017, pan ddywedodd nad yw'r arian ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru ar gyfer 2018-19 yn setliad hael ond y bydd yn gadael iddo barhau i wneud y gwaith hanfodol y mae'n gwneud.

- 21.** Mewn tystiolaeth lafar ar 15 Tachwedd 2017, dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

“[...] this settlement is about giving the service the resources that objectively we’ve been told it should need to be able to keep the wheel turning and to allow it to be sustainable while we continue on that path of reform.”

- 22.** Mae trawsnewid gwasanaethau arwyddocaol yn ganolog i lwyddiant hirdymor GIG Cymru sy'n hyfyw yn ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod cyllid i drawsnewid gwasanaethau a chyllid pontio, o fewn y cyllid presennol ar gyfer GIG Cymru, yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r newid hwn. Os na fydd hyn yn digwydd byddwn yn parhau i fod mewn sefyllfa lle bydd symiau ychwanegol o arian Llywodraeth Cymru yn cael eu rhoi i gynnal modelau cyflawni presennol. Rhaid i unrhyw ddyraniadau ychwanegol Llywodraeth Cymru i GIG Cymru gael eu defnyddio i ysgogi newid hirdymor.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau, yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ionawr 2018, ei bod yn pennu costau'n llawn ar gyfer cynlluniau i ddatblygu newid trawsnewidiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i gyllid ychwanegol ar gyfer y GIG gael ei ddefnyddio i gyflwyno newid.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ffyrdd y caiff gyllid i drawsnewid gwasanaethau a chyllid pontio eu blaenoriaethu a sicrhau eu bod ar gael i sefydliadau'r GIG o fewn cyllidebau presennol.

## **Gwariant ataliol**

---

- 23.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet i waith craffu'r Pwyllgor ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, ym mis Mehefin 2017, yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol.
- 24.** Mae manteision iechyd gwasanaethau ataliol yn glir. Mae'n gallach atal clefydau na thrin eu canlyniadau yn ddiweddarach. Rydym hefyd yn nodi bod 'Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant Cynaliadwy i Bobl Cymru', (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016) yn dweud bod atal yn cynnig 'gwerth da am arian'. Mae'n nodi:

“Mae polisiâu ac ymyriadau ataliol yn achub bywydau, yn arbed arian ac yn gwella llesiant meddwl, llesiant corfforol a llesiant cymdeithasol pobl. Maent yn dangos buddiannau byrdymor a hirdymor ymhell y tu hwnt i'r system iechyd - ar draws cymunedau, cymdeithas a'r economi.”

- 25.** Rydym yn nodi bod cyllid ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 1.7% o brif grŵp gwariant Iechyd, Lles a Chwaraeon (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol). Ar gyfer 2018-19, mae hynny'n cyfateb i £88.4 miliwn ar gyfer Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 26.** Canfu ein hymchwiliad diweddar i Glystyrau Gofal Sylfaenol rai enghreifftiau o glystyrau yn defnyddio cyllid i ddatblygu gwaith ataliol, ond nid oedd yn glir a oedd ganddynt y capasiti a'r gyriant i ddatblygu agenda mor sylweddol.
- 27.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn gosod gofynion i sefydliadau'r GIG y dylai cyfran o'u cyllid gael ei gwario ar weithgareddau ataliol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei phapur tystiolaeth ei bod felly wedi defnyddio'r dull amgen i asesu lefel gwariant y GIG ar atal; adolygu cyllidebau a gynhelir yn ganolog yn erbyn y categorïau canlynol: atal sylfaenol, atal eilaidd, atal trydyddol a gwariant aciwt.
- 28.** Mewn tystiolaeth lafar ar 15 Tachwedd 2017, gofynnwyd i'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol faint o arian y byrddau Iechyd ddylai gael ei wario ar ddulliau ataliol. Dywedodd wrthym nad oedd yn mynd i roi ffigurau artiffisial ar symiau o arian neu ganrannau.
- 29.** Rydym yn cydnabod bod enghreifftiau clir lle mae Llywodraeth Cymru ei hun yn cymryd dull ataliol. Er enghraifft, yn ein hadroddiad Cyfnod 1 ar Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 argymhellwyd bod y Gweinidog ar y pryd yn edrych ar frys ar y potensial i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â gordewdra. Rydym yn falch o weld felly bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ar ôl hynny i ddatblygu strategaeth genedlaethol sy'n canolbwyntio ar atal gordewdra, a lleihau lefelau gordewdra.
- 30.** Rydym hefyd yn croesawu'r buddsoddiad parhaus yn y Gronfa Gofal Integredig (y Gronfa Gofal Canolraddol gynt), sy'n cymryd dull ataliol i hyrwyddo gwaith integredig rhwng gwasanaethau cymdeithasol, Iechyd, tai a'r trydydd sector a'r sector annibynnol.
- 31.** Fodd bynnag, rydym yn nodi tystiolaeth gan Gonffederasiwn GIG Cymru i'r Pwyllgor Cyllid sy'n nodi heriau o symud gwariant tuag at wasanaethau ataliol. Dywed:

“Investment in prevention and early intervention is a priority for our members. However, there is a very real tension between the need to meet the immediate costs of treating those in need of healthcare services and diverting resources into preventative services which may not deliver tangible gains for a number of years.”

**32.** Nid yw'r Pwyllgor hwn yn argyhoeddedig bod digon o ysgogiad naill ai'n genedlaethol neu o fewn byrddau iechyd i newid y cydbwysedd ariannu'n sylweddol tuag at waith ataliol. I fyrddau iechyd sy'n gweithio tuag mantoli eu cyfrifon yn flynyddol, gallai'r her o symud gwariant i ffwrdd o wasanaethau presennol ymddangos yn ormod o risg.

**Argymhelliad 3.** Rhaid i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru flaenoriaethu gwaith ataliol. Rhaid i hyn amrywio o ymyriadau sy'n sicrhau canlyniadau amserol i gleifion i fuddsoddi i arbed rhaglenni fel ymgyrchoedd ataliol ym maes iechyd. Rhaid i fuddsoddiad mewn dulliau ataliol fod yn rhan annatod o waith newid trawsffurfiol GIG Cymru.

## Sefyllfa ariannol y byrddau iechyd

**33.** O ystyried bod y gyfran fwyaf o arian Llywodraeth Cymru ar gyfer GIG Cymru yn mynd yn uniongyrchol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau, ceisiodd y Pwyllgor edrych ar eu sefyllfa ariannol presennol. Eleni rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar fyrddau iechyd, gan edrych p'un a yw'r adnoddau a ddarperir iddynt yn ddigonol, yn cynrychioli gwerth am arian, a thystiolaeth eu bod yn gwario'n effeithiol i ddarparu gofal iechyd cynaliadwy o safon.

**34.** Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ysgrifenedig gan y byrddau iechyd cyn y sesiynau tystiolaeth craffu llafar cyn y gyllideb gyda nhw. Gofynnwyd am fanylion manwl gan ganolbwyntio'n benodol ar bedwar maes allweddol: iechyd meddwl; perfformiad ariannol; cyflymder newid; a phwysau yn y gweithlu.

**35.** Yn y sesiynau tystiolaeth llafar, ceisiodd y Pwyllgor edrych ar y sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn ar gyfer 2016-17, y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg ar gyfer 2017-18 a'r amcanion a'r heriau posibl ar gyfer 2018-19.


**36.** Rydym yn nodi nad yw uchelgeisiau Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 wedi cael eu gwireddu'n llwyr gan bob un o gyrff y GIG eto. Rhaid i fyrddau iechyd reoli eu hadnoddau eu hunain o fewn terfynau cymeradwy dros gyfnod treigl o dair blynedd. Rydym yn nodi bod pob un o Ymddiriedolaethau GIG Cymru wedi adrodd gwarged ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2014-15 a 2016-17. Mae hynny i'w groesawu'n fawr.

**37.** Fodd bynnag, mae'n siomedig bod pedwar o'r saith BILL wedi adrodd diffyg yn o leiaf un o'r tair blynedd flaenorol. Yn benodol, mae'n bryder bod Betsi Cadwaladr a Hywel Dda wedi nodi diffyg ym mhob un o'r blynyddoedd rhwng 2014-15 a 2016-17.


**38.** Dangosir y pwyntiau hyn yn y tri ffigur isod:



Ffigur 1: Perfformiad cydgasgledig Byrddau Iechyd yn erbyn gwariant refeniw, 2014-15 i 2016-17.  
Ffynhonnell: Cyfrifon Blynyddol BILI



Ffigur 2: Perfformiad ariannol Byrddau Iechyd Lleol 2014-15 i 2016-17





Ffigur 3: Perfformiad ariannol Ymddiriedolaethau GIG Cymru 2014-15 i 2016-17.



39. Rydym hefyd yn nodi canfyddiadau adroddiad 2017 Archwilydd Cyffredinol Cymru ar weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Cyfeiriodd at y ffaith er y bu gwariant cynyddol ar iechyd, mae rhai byrddau iechyd yn dal i ddibynnu ar Lywodraeth Cymru i ddyrannu arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod hyn yn achosi heriau ar gyfer rheoli ariannol yn Llywodraeth Cymru, a bod angen symud arian o feysydd eraill.

40. Yn ystod yr ymchwiliad ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn ym mis Mehefin 2017, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n cael adroddiadau llywodraethu ariannol ar fyrddau iechyd dros yr haf ac yn eu hystyried. Dywedodd y canlynol:

"I think we should all have a healthy dose of scepticism about health boards that don't currently live within their means, about what the real scale of that is.

[...] if you currently run the model you've currently got and you know you can't live within your means for that, you should actually ask yourself, 'Well, is that the right model of care to be providing?'

[...] the two health boards that live within their means, that are large health boards with secondary care provision, actually cover a significant chunk of the most deprived parts of Wales. So, there is something about understanding how those health boards have been successful. And that's part of our challenging the system, about making sure that we transfer that successful leadership and understanding across our whole system."

**41.** Mewn tystiolaeth lafar, nododd y byrddau iechyd eu hymdrechion i gwrdd â'r heriau ariannol presennol. Pan ofynnwyd a fyddai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gallu 'mantoli'r gyllideb', dywedodd Gary Doherty, y Prif Weithredwr:

“Am I confident we can improve our position? Yes. Am I able to give you today a date when that break-even position will be achieved? No, because like I say, that would be putting us in a position where we shouldn't be today, and it wouldn't be right for me to get into that position.”

**42.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym mewn tystiolaeth lafar ei bod yn 'realistig' i'r byrddau iechyd ddod allan o'u sefyllfa o ddiffyg. Dywedodd hefyd mai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd yr un oedd yn pryderu fwyaf amdano. Pan holwyd am y £95 miliwn a roddwyd i'r neilltu gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn flaenorol i ddelio â chyllid posibl byrddau iechyd, dywedodd wrthym ei fod yn meddwl am swm tebyg ar gyfer eleni er nad yw hynny wedi'i gadarnhau eto.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r fethodoleg bresennol ar gyfer pennu cyllidebau byrddau iechyd a chyhoeddi ei chanfyddiadau. Rhaid i fyrddau iechyd weithio tuag at hyfywedd ariannol o safbwynt hyder bod eu lefelau cyllid presennol yn briodol.

### **Effeithlonrwydd Byrddau Iechyd**

---

**43.** Yn ystod ein gwaith craffu, gwnaethom geisio edrych ar y raddfa effeithlonrwydd y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu cyflawni hyd yma a chanfod p'un a oes posibilrwydd i effeithlonrwydd yn y dyfodol sicrhau'r raddfa o newid ariannol sydd ei hangen er mwyn i bob bwrdd iechyd adennill eu costau.

**44.** Rydym yn nodi canfyddiadau'r Sefydliad Iechyd yn ei adroddiad o 2016: 'The path to sustainability: Funding projections for the NHS in Wales to 2019-20 and 2030-31' a oedd yn nodi bod y GIG yng Nghymru yn wynebu'r cyfnod mwyaf heriol yn ariannol yn ei hanes. Ymysg ei gasgliadau oedd bod yn rhaid i GIG Cymru gyflawni o leiaf £700 miliwn o arbedion effeithlonrwydd i gau'r bwlch ariannu a ragwelir erbyn 2019/20.

**45.** Nodwn hefyd, yn yr un modd, adroddiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn 2016, 'Efficiency and the NHS Wales Funding Gap' sy'n awgrymu bod yr 'enillion hawdd' wedi cael eu cyflawni gan GIG Cymru a bod cyflawni enillion pellach yn dod yn fwy anodd. Mae hyn yn peri pryder o ystyried y raddfa effeithlonrwydd sydd angen ei chyflawni.

- 46.** Yn ystod y sesiwn graffu ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn ym mis Mehefin 2017, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn credu bod lle o hyd i wella effeithlonrwydd o fewn GIG Cymru. Dywedodd: 'to say all the low-hanging fruit is gone, I have real scepticism about that'.
- 47.** Hefyd dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym y bydd yr arian wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arloesedd drwy'r Gronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg yn lleihau £4 miliwn yn 2018-19. Dywedodd ei fod wedi arwain camau i wella effeithlonrwydd mewn gwariant iechyd, drwy sefydlu Grŵp Effeithlonrwydd, Gwella Gofal Iechyd a Gwerth, dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr GIG Cymru. Dywedodd hefyd fod y Grŵp wedi nodi ystod o gyfleoedd lle gall lleihau amrywiad yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ledled Cymru gynyddu effeithlonrwydd heb effeithio ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.
- 48.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi yng nghyflwyniad Confederasiwn GIG Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 a ddywedodd fod y GIG yng Nghymru wedi sicrhau mwy na £1.1 biliwn mewn arbedion effeithlonrwydd rheolaidd ers 2011. Fodd bynnag, dywedodd:

“[...] our members are therefore continually seeking to drive out efficiency savings where they can, but successive years of dealing with financial challenges means the traditional methods of finding savings are unlikely to serve us well in the future. [...]”

- 49.** Yn eu tystiolaeth i ni, dywedodd y byrddau iechyd bod sicrhau effeithlonrwydd yn mynd yn anoddach bob blwyddyn. Clywsom hefyd, er bod cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol, fod pob un yn anodd i'w cyflawni.
- 50.** Er ein bod yn croesawu'r dystiolaeth ynghylch sefydlu Grŵp Effeithlonrwydd, Gwella Gofal Iechyd a Gwerth, nid ydym wedi ein hargyhoeddi hyd yma bod cynllun clir a chadarn i sicrhau'r effeithlonrwydd GIG sy'n weddill o fewn yr amserlenni a drafodir.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen effeithlonrwydd Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod arfer da lleol yn cael ei drosi i newid ar draws gwasanaethau ledled Cymru.

**Argymhelliad 6.** Dylai rhaglen effeithlonrwydd Cymru gyfan Llywodraeth Cymru (ein Hargymhelliad 5) ganolbwyntio'n glir ar sut bydd buddsoddiad cyfalaf yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chefnogi newid trawsffurfiol.

## Dyraniadau a gwariant cyfalaf

---

- 51.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod ganddi raglen seilwaith GIG uchelgeisiol dros y tair blynedd nesaf a fydd yn cynnwys darparu cyfleusterau newydd a rhai aildatblygiadau mawr o ganlyniad i gynnydd yn y buddsoddiad i gyllid cyfalaf y GIG.
- 52.** O fewn y dyraniad cyfalaf cynyddol, mae £82.7 miliwn (29%) ar gael i sefydliadau'r GIG fel cyfalaf disgrisiwn ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a ganlyn: Cyflawni rhwymedigaethau statudol, fel iechyd a diogelwch a chod tân; cynnal ffabrig yr ystâd; ailosod offer yn brydlon.
- 53.** Mae tystiolaeth gan fyrddau iechyd yn awgrymu eu bod yn defnyddio eu cyfalaf i gynnal perfformiad offer hanfodol a chynnal yr ystâd, er enghraifft, dywedodd BILL Caerdydd a'r Fro:

“We get up to £16 million capital to spend each year. Most of that is taken up in maintaining all sites, maintaining the Heath, which has got tremendous amounts of need—backlog work that needs to be done to keep it functioning and operational. We do try to use some of it to improve our revenue position by replacing old, outdated theatres, or old, outdated areas for the delivery of clinical care that allow modern layouts to make care easier and less reliant on old infrastructure. So, unfortunately, it’s taken up with most of that, so the opportunity to use it to reduce revenue is quite limited, I’m afraid.”

- 54.** Mae nifer o adroddiadau ein Pwyllgor hyd yma yn amlygu pwysigrwydd buddsoddiad cyfalaf i ategu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG. Er enghraifft, mae ein hadroddiad diweddar ar Glystyrau Gofal Sylfaenol yn amlygu nad yw ystâd bresennol y GIG yn addas i'r diben i gyflawni'r ffordd aml-ddisgyblaeth o weithio sy'n dod i'r amlwg. Felly, rydym yn croesawu buddsoddiad Llywodraeth Cymru i genhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal integredig, sy'n anelu at gyflwyno 19 o brosiectau ledled Cymru erbyn 2021.
- 55.** Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod pob BILL wedi aros o fewn y terfynau gwariant cyfalaf ar gyfer 2014-15 a 2016-17, rydym hefyd yn pryderu bod ffocws y mwyafrif helaeth o'r gwariant hwn ar gynnal yr ystâd bresennol yn hytrach na buddsoddiad i helpu i drawsnewid gwasanaethau cynaliadwy hirdymor.
- 56.** Mae cyflwyniad Conffederasiwn GIG Cymru i'r Pwyllgor Cyllid yn nodi y bydd y setliad cyfalaf ar gyfer y GIG yn hanfodol. Mae'n croesawu ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i flaenoriaethau'r buddsoddiad mewn offer meddygol newydd,

technoleg a rheoli gwybodaeth a seilwaith ystâd a'r sicrwydd cynyddol a ddarparwyd drwy gyllideb cyfalaf pedair blynedd, gan eu bod yn credu eu bod yn galluogi'r GIG i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol. Ar yr un pryd, mae Conffederasiwn GIG Cymru yn nodi bod y dyraniad cyfalaf yn arbennig o heriol, gan ddweud:

“The shortage of capital funding is a very particular barrier to service change. In order to consolidate services and make them more efficient to release revenue there will need to be a significant investment now and in the future in buildings, equipment and information and communication technology in the secondary care sector but also in primary and intermediate care.”

**57.** Rydym yn croesawu dyraniadau cyfalaf ychwanegol Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod gan rai byrddau iechyd Strategaeth Ystadau uchelgeisiol a chynhwysfawr a rhaglenni buddsoddiad cyfalaf arfaethedig gan gynnwys mewn technoleg ddigidol. Mae'n hanfodol bod gan strategaethau o'r fath ffocws clir ar sut gall buddsoddiad cyfalaf gefnogi arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol ac ad-drefnu gwasanaethau.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi a dwyn byrddau iechyd i gyfrif i flaenoriaethu cyllid cyfalaf ar gyfer gofal sylfaenol sicrhau ei fod yn gwella capasiti corfforol ar gyfer gwaith aml-ddisgyblaeth a hyrwyddo modelau gofal newydd.

## **Iechyd meddwl**

---

**58.** Yn 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cymru drefniadau i glustnodi dyraniadau refeniw iechyd meddwl i fyrddau iechyd gyda'r nod o hyrwyddo buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

**59.** Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog yn nodi, yn unol â'r cytundeb cyllideb rhwng Plaid Cymru, bydd y dyraniad a glustnodwyd ar gyfer iechyd meddwl ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn cael ei gynyddu £20 miliwn i bron i £650 miliwn o'r lefel bresennol o £629 miliwn.

**60.** Rydym yn croesawu'r adnoddau ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl a'r ffaith bod gwariant byrddau iechyd ar iechyd meddwl ar y cyfan yn fwy na'r dyraniad a glustnodwyd. Fodd bynnag, rydym yn ystyriol o'r angen am adnoddau ychwanegol i ategu'r galw cynyddol ar wasanaethau iechyd meddwl ac annog Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol.

- 61.** Mae tystiolaeth a gawsom gan fyrddau iechyd yn amlygu'r pwysau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), gwasanaethau argyfwng, a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol (CMHTs). Mae'r nifer cynyddol o achosion o ddementia hefyd yn gyrru'r galw am wasanaethau, gan gynnwys yr angen cynyddol am ofal iechyd parhaus y GIG. Mae ein hymchwiliad presennol ar y defnydd o feddyginiaeth wrthseicotig mewn cartrefi gofal i reoli symptomau ymddygiadol a seicolegol dementia wedi pwysleisio'r angen i wella mynediad i opsiynau a therapïau triniaeth anfferyllo.
- 62.** Mae ad-drefnu gwasanaethau ym maes iechyd meddwl mor bwysig â gwasanaethau iechyd eraill, lle gall gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol gael effaith ataliol a hwyluso pwysau ar wasanaeth cleifion mewnol yn y tymor hwy.
- 63.** Rydym yn croesawu gwasanaethau arloesol fel presgripsiynau cymdeithasol a byddai'n pwysleisio pa mor bwysig yw casglu tystiolaeth ar effeithiolrwydd cynlluniau o'r fath er mwyn gallu gwneud penderfyniadau hysbys ynghylch buddsoddiadau mewn gwasanaethau yn y dyfodol. Mae gwaith diweddar y Pwyllgor ar ddementia ac unigrwydd ac unigedd wedi amlygu pa mor bwysig yw cymorth lefel isel yn y gymuned o ran galluogi pobl i gynnal eu hiechyd a'u lles ac oedi neu atal yr angen am ofal a thriniaeth fwy dwys. Felly mae'n bryderus bod cyfyngiadau ariannol yn rhoi gwasanaethau awdurdodau lleol o dan bwysau, gan gynnwys ym maes iechyd meddwl lle mae cydweithio â'r GIG wedi'i sefydlu'n dda mewn sawl maes.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad pellach o arian wedi'i glustnodi i iechyd meddwl i asesu p'un a yw wedi arwain at wariant effeithiol a phriodol ar iechyd meddwl a sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.

## **Iechyd Carcharorion**

---

- 64.** Roeddem yn pryderu o glywed gan fyrddau iechyd nad yw cyllid ar gyfer gofal iechyd mewn carchardai yn ymateb i newidiadau yn y boblogaeth carchardai. Er enghraifft, dywedodd BIP AB wrthym ei fod yn wynebu pwysau parhaus ar ei dîm mewngymorth iechyd meddwl gofal eilaidd yn gwasanaethu HMP Parc, gan amcangyfrif fod y gost ychwanegol hon tua £400,000. Mae hyn oherwydd bod y gwasanaeth yn cael ei gomisiynu'n wreiddiol yn seiliedig ar boblogaeth yn y carchar o 800, ond mae poblogaeth y carcharorion wedi codi i 2,000 (cynnydd o 150%) tra bod y lefelau o adnoddau mewngymorth wedi aros yn sefydlog.
- 65.** Ar sail Cymru gyfan, nid yw eglurhad Ysgrifennydd y Cabinet fod y £2.5 miliwn a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru at y diben hwn wedi cynyddu i ystyried costau



cynyddol gofal iechyd mewn carchardai wedi rhoi sicrwydd. O ystyried datblygiad HMP Berwyn yn y gogledd, rydym yn rhannu pryderon Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch digonolrwydd y trefniadau ariannu ar gyfer gofal iechyd carchardai.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud yr achos cryfaf posibl i Lywodraeth y DU / Gwasanaeth Rheoli Troseddau Cenedlaethol dros gynyddu'r hyn sy'n ddyraniad ariannol cymharol fach ar gyfer iechyd mewn carchardai er mwyn sicrhau bod unigolion yn yr ystadau diogel yng Nghymru, sy'n aml ag anghenion uwch na'r cyfartaledd, yn enwedig o ran iechyd meddwl, yn gallu cael gofal iechyd o safon.

## Y gweithlu iechyd


---

- 66.** Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch nifer y materion ariannu yn ymwneud â'r gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys costau staff asiantaeth a chostau locwm i'r GIG; terfyn cyflog y sector cyhoeddus; a'r buddsoddiad hirdymor sydd ei angen yn ein gweithlu meddygon teulu a'r dyraniadau a wneir ar gyfer lleoedd hyfforddiant.
- 67.** Mae Byrddau Iechyd yn pwysleisio'n gyson sut mae costau a materion sylfaenol y gweithlu yn sicrhau newid trawsnewidiol. Rydym yn glir y bydd y ffactor hwn yn hanfodol o ran p'un a fydd GIG Cymru yn mantoli'r gyllideb yn y tymor hwy.
- 68.** Mae cyflwyniad Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer y sesiwn craffu yn ystod y flwyddyn yn nodi nifer o feysydd buddsoddiad mewn datblygu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion presennol a'r dyfodol, gan gynnwys £46.2 miliwn i gefnogi cynlluniau'r gweithlu gofal sylfaenol; £95 miliwn i gefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant; rhaglen datblygu gwaith cymdeithasol gwerth £8 miliwn; £0.733 miliwn i gefnogi lleoedd hyfforddiant meddygol ychwanegol; parhau â bwrsariaethau ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol (hyd at £2,500 y flwyddyn ar gyfer tair blynedd); ymestyn bwrsariaethau'r GIG a £19 miliwn i helpu i weithredu'r Cyflog Byw Cenedlaethol.
- 69.** Ar yr un pryd, mae tystiolaeth gyfyngedig ar y canlyniadau a ddisgwylir o'r buddsoddiad hwn o ran nifer y staff newydd, datblygu sgiliau a newidiadau mewn gwasanaethau, yn ogystal ag o le y daw y gwaith o gydlynu ac arwain y newidiadau hyn.
- 70.** Yn eu papurau ysgrifenedig, gwnaeth pob bwrdd iechyd gyfeirio at faterion yn ymwneud â rheoli taliadau a chostau amrywiol staff asiantaeth, locwm a banc. Rydym yn nodi bod costau asiantaeth yn her benodol ar gyfer nifer o fyrdau iechyd. Mae'n destun pryder bod costau asiantaeth GIG Cymru fel canran o gyfanswm cyflog wedi codi o 2.4% yn 2013-14 i 5.7% yn 2016-17. Ar gyfer 2016-17, roedd gwerth BILL byrddau iechyd unigol yn amrywio o 3% (Caerdydd a'r Fro) i 8.3% (Cwm Taf). Dangosir hyn isod. Rydym yn rhagweld y bydd gweithredu Deddf



Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) ym mis Ebrill 2018, er ein bod yn ei chroesawu, yn cynyddu'r costau hyn, er ei fod yn ganlyniad anfwriadol.

Ffigur 4: Costau Asiantaeth Staff Byrddau Iechyd Lleol, 2013-14 i 2016-17 (£'000)



71. Rydym yn croesawu bod y byrddau iechyd yn adrodd eu bod yn gwneud ymdrechion sylweddol i fynd i'r afael â materion yn y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys gwaith ledled Cymru i reoli costau gwaith asiantaeth; annog staff locwm hirdymor dros amser i ddod yn gyflogeion parhaol y GIG; teilwra ymgyrchoedd recriwtio meddygol fel gwaith yn uned Meddyginiaeth Frys yn Ysbyty Gwynedd, y clywodd y Pwyllgor amdani yn ystod ei ymchwiliad diweddar i recriwtio meddygol; ac ymgyrchoedd recriwtio lleol a chenedlaethol ar gyfer nyrsio.
72. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd glywed am y risgiau posibl yn y gweithlu yn gysylltiedig â Brexit, gyda BIP Betsi Cadwaladr (BIP BC) yn adrodd bod tua 37% o'u gweithlu yn datgan cenedligrwydd arall heblaw Prydeinig. Mae Conffederasiwn GIG Cymru yn amcangyfrif bod tua 1,300 o bobl yn y GIG yn dod o wledydd Ewropeaidd ar hyn o bryd. Dywedodd byrddau iechyd eraill fel Cwm Taf wrthym eu bod yn profi anawsterau recriwtio gan fod canrannau uwch o'r gweithlu yn dod o'r UE a thramor gan effeithio'n benodol ar wasanaethau meddygol a deintyddol, gyda thua 50% o staff yr UE a thramor.
73. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym ei fod yn cydnabod bod hwn yn faes heriol iawn. Aeth ymlaen i amlinellu ystod o ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn, er enghraifft dywedodd wrthym am gynnydd yn y lleoedd hyfforddiant ar gyfer nyrsys a bydwragedd. Cyfeiriodd hefyd at greu Addysg a Gwella Iechyd Cymru a chyfeiriodd at fuddsoddiad o £95 miliwn yn hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y dyfodol.

**Argymhelliad 10.** O ystyried swm sylweddol gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth, dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o'r anghysonderau a chynnal mentrau ar draws trefniadau asiantaeth / banc gyda'r bwriad o wneud newidiadau sy'n lleihau gwariant yn sylweddol.

## Gofal Cymdeithasol

**74.** Caiff gofal cymdeithasol awdurdodau lleol ei ariannu'n rhannol drwy'r grant cynnal refeniw. Cafodd y Setliad Llywodraeth Leol dros dro ar gyfer 2018-19 ei gyhoeddi ar 10 Hydref 2017 gan nodi dyraniadau pob un o'r 22 awdurdod lleol. Er bod Caerdydd wedi cynyddu ychydig (0.2%), mae cyllid ar gyfer pob awdurdod lleol arall wedi lleihau hyd at 1%.

**75.** Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllideb refeniw o ddwy flynedd, ac mae'r ffigurau ar gyfer 2019-20 yn ddangosol. O ran gwasanaethau cymdeithasol, mae naratif y gyllideb yn y ddogfen yn nodi:

“[...] Yn y Gyllideb hon, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol, gan ddarparu £42m yn ychwanegol yn 2018-19, a chynyddu i £73m yn 2019-20. Mae hyn yr un peth â chynnal cyfran gwariant craidd Llywodraeth Cymru ar ofal cymdeithasol ar lefelau 2017-18 yn 2018-19 ac yn 2019-20.”

**76.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at £20 miliwn ychwanegol o gymorth ariannol rheolaidd sydd wedi dod ar gael o 2017-18 drwy gyllid canlyniadol yn dilyn cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Mawrth.

**77.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wrthym: ‘we’re not convinced it’s additional resource; it’s a reallocation of resource within the current funding envelope. The funding envelope for 2018-19 reduces by 0.5 per cent. That’s £20 million.’

**78.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig CLILC/ADSS Cymru hefyd yn nodi eu barn ar setliad ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn gyfredol (2017-18):

“The additional funding that was made available as a result of consequential funding from the UK government’s March budget was awarded for specific areas of work with restrictions placed on what it could be used for, rather than providing local authorities with flexibility to meet local demand and needs. (...) However, if part of this additional funding is for

new responsibilities then it cannot be said to be funding any existing pressure.”

## **Pwysau ar ofal cymdeithasol**

---

**79.** Dywedodd CLILC/ADSS Cymru wrthym am y pwysau ariannol y mae gofal cymdeithasol yn eu hwynebu. Roeddent yn glir nad yw gwariant gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-fynd â'r galw cynyddol ar hyn o bryd. Maent yn amcangyfrif eleni y bydd diffyg yng nghyllidebau gwasanaethau cymdeithasol o £100 miliwn a'u bod yn amheus ynghylch y cynnydd arfaethedig ar gyfer 2018-19:

“So, we estimate this year there will be a shortfall of £100 million; accumulatively, £344 million. You will have seen in the evidence that there's been an independent report by the Health Foundation that estimates that the cost of adult social care's going to double over the coming years. The impact of that is that we are going to struggle to maintain existing services because, obviously, we have fewer resources and we have rising demand for services, and the cost of those services is also rising as well.”

**80.** Cyfeiriodd CLILC/ADSS at effaith demograffeg newidiol. Dywedodd Arweinydd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Huw David, wrthym:

“You look at the number of people over 65 in the next 15 years, and, even more frighteningly, the number of people over 85, and, unfortunately, there is going to have to be a public sector intervention for them unless another model can be developed. It is the perfect storm, isn't it? The demographic time bomb at a time of financial austerity is very difficult.”

**81.** Dywedodd Jon Rae o CLILC wrthym: ‘the bottom line is that cuts are having a big effect on local public services’.

**82.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym:

“Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r tensiwn posibl rhwng pwysau costau dyddiol a gwariant ataliol ar y gwasanaethau cymdeithasol. Bwriad ein diwygiadau mawr i ddeddfwriaeth a gwasanaethau yw galluogi awdurdodau lleol a'r sector yn ehangach i ymateb i'r ddemograffeg ac i'r heriau eraill drwy fabwysiadu dull tymor hwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar a chyflawni canlyniadau llesiant personol wrth wella llesiant pobl yng Nghymru.”

**83.** Mewn tystiolaeth lafar ar 15 Tachwedd 2017, cyfeiriodd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant at ostyngiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru gan gydnabod pwysau ar y maes cymdeithasol. Gan gyfeirio at gyllideb Llywodraeth Cymru, dywedodd:

“It’s going to be £1billion lower in real terms than we had in 2010-11, with increasing pressures at the same time.”

**84.** Mae'r Pwyllgor yn gwbl ymwybodol o effaith cyni parhaus ar lywodraeth leol a bod Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud penderfyniadau anodd yn sgil y gostyngiadau yn y gyllideb. Nid ydym yn tanbrisio'r heriau y mae awdurdodau yn eu hwynebu wrth barhau i ddarparu a gwella gwasanaethau i gymunedau yng Nghymru o fewn cyllidebau llai. Rydym yn credu bod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth leol i gydweithio i nodi atebion a fydd yn sicrhau cyllid cynaliadwy nid yn unig ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol, fel addysg a gofal cymdeithasol, ond nid gwasanaethau heb eu diogelu fel cynllunio a gwasanaethau rheoliadol, yr effeithir arnynt yn fawr yn sgil cyni.

**85.** Darparu gofal cymdeithasol cynaliadwy o safon yw un o'r heriau mwyaf sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth ganolog a lleol heddiw. Waeth pa mor anodd yw hyn, mae costau cynyddol gofal cymdeithasol ynghyd â galw cynyddol yn golygu bod angen sylw brys ar y broblem hon a rhaid bod o flaen y gad yn ystyriaethau'r gyllideb dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae gan y Pwyllgor bryderon penodol ynghylch y cynnydd tebygol yn y galw am leoedd gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion hŷn a'r tuedd am nifer lai o leoedd ar gyfer oedolion hŷn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er gwaethaf cynnydd bychan yn 2016-17. O ystyried y 'storm berffaith' y cyfeiriodd CLILC ati, mae'n hanfodol cynllunio ar gyfer darpariaeth gofal cymdeithasol yn y dyfodol a chreu model a ariennir yn gynaliadwy. Rydym yn ymwybodol o'r cynigion ar gyfer dulliau newydd a ddatblygir i helpu i dalu am ofal cymdeithasol, gan wneud y defnydd o'r cyfleoedd a ddarperir gan y system drethi ddatganoledig.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid sicrhau bod cyllid ychwanegol blwyddyn ar ôl blwyddyn wedi'i gynllunio ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol sy'n ddigonol i adlewyrchu gofynion cynyddol.

### **Cynnydd yng nghyllid GIG o gymharu â gofal cymdeithasol**

---

**86.** Tynnodd CLILC/ADSS sylw at wahaniaethau mewn adnoddau a ddarparwyd i'r GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y Cynghorydd Huw David wrthym

“[...] the pressures that we face are more acute than the pressures in the health service. The health service will have their budgets increased this year. [...] We will not have our budgets increased; our budgets will be reduced this year.”

**87.** Mae gofal cymdeithasol effeithiol yn hanfodol ar gyfer GIG effeithiol. Felly, nid oes amheuaeth bod GIG Cymru cynaliadwy yn dibynnu ar fuddsoddi'n ddigonol mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn nodi canfyddiadau adroddiad y Sefydliad Iechyd yn 2016 a ganfu:

“Adequately funded social care is critical to a sustainable health service. But as the Welsh population ages, pressures on social care are projected to rise at a faster rate than for the NHS. With funding unlikely to rise at the same rate, there is a real risk that the level of unmet need for care services in Wales could increase”.

### **Trothwy ar gyfer gofal preswyl**

---

**88.** Rydym yn nodi datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 10 Hydref 2017 lle cyfeiriodd at y newidiadau i dalu am wasanaethau cymdeithasol, gan nodi:

“Cyn cytuno ar y setliad terfynol, byddwn yn ystyried y dystiolaeth bellach a gaglwyd ar effaith ariannol cynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir ar gyfer codi tâl am ofal preswyl. Bydd hyn yn caniatáu inni benderfynu ar y cam nesaf ar gyfer cynyddu'r terfyn hwn i gyflawni ein hymrwymiad i'w godi i £50,000 yn ystod oes y llywodraeth hon.”

**89.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

“It is a firm commitment of this Government to do. We think it's achievable. We think it's deliverable. We can see the benefits delivering. I have to say, as well, it is immensely popular as a commitment as well. So, people are expecting us to deliver on this. But we do want to make sure that we do it in the right way. So, this mid-year, more balanced approach, to look at the analysis and see how we take it forward for the next part of the budget, will be a crucial one. But we are confident we will be taking this commitment forward.”

**90.** Mae'r newid yn y trothwy gofal preswyl yn codi cwestiynau ynghylch effaith yr ymrwymiad hwn ar y gyllideb gyffredinol. Dyma fater y bydd y Pwyllgor yn ei fonitro'n ofalus wrth i'r newidiadau gael eu gweithredu.

## Chwaraeon

**91.** Roedd y Pwyllgor yn synnu o weld y newid ym mhortffolios Llywodraeth Cymru, gyda chwaraeon a gweithgarwch corffol yn cael ei roi ar wahân i iechyd cyhoeddus, ar ôl cael ei roi ynghyd o dan un portffolio. Yn wir, mae papur ysgrifenedig Llywodraeth Cymru a ddarparwyd ar 15 Tachwedd i helpu 'r Pwyllgor gyda gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft yn nodi:

“Profwyd bod gweithgarwch corfforol yn chwarae rôl arwyddocaol mewn iechyd ac atal salwch, a gall gyfrannu at lesiant meddyliol a lleihau arwahanrwydd. Mae gan chwaraeon rôl ystyrlon wrth gyfrannu at lefelau gweithgarwch corfforol. Dyma yw'r rheswm pam y cafodd Chwaraeon ac Iechyd y Cyhoedd eu huno yn y Llywodraeth hon.”

**92.** Serch hynny, mae'r llythyr a gawsom gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar 21 Tachwedd 2017 yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gwahaniad rhwng iechyd, chwaraeon a gweithgarwch corfforol, er bod y portffolios wedi'u rhannu. Dywed llythyr Ysgrifennydd y Cabinet: 'ni fydd y newid yn y portffolios yn rhwystro nac yn cael effaith ddrwg ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Chwaraeon Cymru nac ar ei fframwaith canlyniadau'. Mae'r Pwyllgor wedi nodi newid ymddangosiadol Llywodraeth Cymru o'r sefyllfa hon yn hyn o beth a bydd yn monitro datblygiadau i bennu a yw hyn yn wir dros amser.

**93.** Mae gan Chwaraeon Cymru ddyletswyddau pwysig gan gynnwys datblygu dull newydd ar gyfer gweithgarwch corfforol, a chynyddu nifer y bobl sy'n bodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol a gweithgarwch corfforol, sy'n rhaid ei gyflwyno'n effeithiol. Rydym yn bwriadu cynnal sesiwn graffu gyda Chwaraeon Cymru yn ddiweddarach yn y Cynulliad hwn i asesu ac adolygu ei gynnydd. Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac yn nodi bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Chwaraeon Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd ein hymchwiliad presennol i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc yn helpu i lywio Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

**94.** Dywedodd CLILC ac ADSS Cymru wrthym fod awdurdodau lleol wedi ymateb i'r pwysau ariannol sydd arnynt drwy flaenoriaethu gwasanaethau statudol. Dywedwyd wrthym fod hyn yn aml ar draul gwasanaethau anstatudol fel canolfannau hamdden, sy'n amlwg â rôl ataliol o ran iechyd y boblogaeth leol. Felly, rydym yn pryderu o glywed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth nad oes asesiad o'r effaith ar lefelau gweithgarwch corfforol yn sgil toriadau i ganolfannau hamdden cymunedol. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru

i gynnal asesiad effaith a gwaith pellach i liniaru'r gostyngiad mewn cyfleusterau cymunedol sydd â rôl bwysig yn galluogi pobl i gadw'n heini ac egniïol yn eu hardaloedd lleol.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r newidiadau diweddaraf mewn portffolios yn cael effaith andwyol ar alinio rhwng polisïau o ran gweithgarwch corfforol a chwaraeon a'r rhai sy'n ceisio gwella canlyniadau iechyd a lles.

## Casgliadau cyffredinol

- 95.** Mae nifer o heriau yn wynebu darpariaeth gwasanaethau yn y GIG. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gawsom ynghylch cyfyngiadau ariannol oherwydd agenda cyni Llywodraeth y DU. Rydym hefyd yn nodi heriau ychwanegol, gan gynnwys demograffeg newidiol, sy'n rhoi pwysau ar y GIG a llywodraeth leol fel ei gilydd.
- 96.** Mae dod o hyd i effeithlonrwydd pellach a diwygio gwasanaethau iechyd presennol yn hanfodol os yw'r heriau hyn am gael eu hateb. Mae angen sylw brys i sicrhau bod dyraniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant GIG Cymru yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd a fydd yn cyflawni newid trawsnewidiol.
- 97.** Yn yr un modd, mae darpariaeth gofal cymdeithasol yn debygol o gyrraedd pwynt o argyfwng heb newid sylweddol i lefelau a dulliau ariannu na'r model cyflawni. Yn sgil gostyngiad mewn cyllideb a chynnydd yn y galw, mae CLILC ac ADSS Cymru yn cyfeirio at 'storm berffaith' yn hyn o beth. Rydym yn cytuno bod hwn yn fater sydd angen sylw brys.
- 98.** Mae gweithgarwch corfforol a chwaraeon yn rhan annatod o iechyd a lles. Mae'n hollbwysig nad yw effaith gyffredinol ar bolisïau, rhaglennu a gwariant Llywodraeth Cymru yn cael ei gwanhau gan newidiadau diweddar i bortffolios. Mae hwn yn fater y byddwn yn mynd ati i'w fonitro dros amser ac yn ei archwilio yn ein hymchwiliad presennol i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc.